# CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL (CYSAG)

Cofnodion cyfarfod Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG) a gynhaliwyd drwy gyfleuster fideogynadledda ddydd Mercher, 8 Chwefror 2023, am 10.00am

## YN BRESENNOL

**Yn cynrychioli Cyngor Sir Ddinbych**

Y Cynghorwyr Ellie Chard (Cadeirydd), Ann Davies, Gill German, Delyth Jones, Cheryl Williams ac Emrys Wynne

**Yn cynrychioli Enwadau Crefyddol ac Argyhoeddiadau Athronyddol Anghrefyddol**

Y Parchedig Brian Jones a Collette Owen

**Yn cynrychioli Cymdeithasau Athrawon**

Sarah Griffiths a Susan Williams

## HEFYD YN BRESENNOL

Ymgynghorydd Addysg Grefyddol (PL) a Gweinyddwyr y Pwyllgor (KEJ a NPH [Gweinyddwr Zoom])

## MYFYRIO TAWEL

Dechreuodd y cyfarfod gydag ychydig funudau o fyfyrdod tawel.

## PWYNT SYLW

Croesawyd Susan Williams fel aelod newydd o’r Cyngor Ymgynghorol – yn cynrychioli cymdeithasau athrawon – a chyflwynwyd pawb a oedd yn bresennol.

## 1 YMDDIHEURIADAU

Leah Crimes, Jennie Downes a Tania ap Siôn

James Brown, Prif Reolwr Addysg

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Datganodd y Cynghorydd Chard gysylltiad personol â'r eitem hon fel Llywodraethwr Ysgol Tir Morfa.

## 3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni chodwyd unrhyw faterion brys.

## 4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG) a gynhaliwyd ar 19 Hydref 2022 (a ddosbarthwyd ymlaen llaw).

**Materion yn Codi –**

Tudalen 8 – Eitem 7 Adroddiad Blynyddol Drafft CYSAG 2020/21 – Yr oedd yr ail newyddlen wedi ei dosbarthu i ysgolion ac yr oedd hefyd ar gael ar rwydwaith lleol athrawon CGM Sir Ddinbych.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn a chymeradwyo cofnodion cyfarfod CYSAG a gynhaliwyd ar 19 Hydref 2022 fel cofnod cywir.*

## 5 CWRICWLWM I GYMRU

Rhoddodd yr Ymgynghorydd Addysg Grefyddol gyflwyniad am Ganllawiau a deunydd hyfforddiant Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM) y gall athrawon eu defnyddio i'w cynorthwyo i ddeall a chynllunio cwricwlwm CGM priodol yn seiliedig ar Faes Llafur Cytunedig Sir Ddinbych.

Darparwyd hyfforddiant i athrawon Conwy yn ystod tymor yr hydref, a chafodd ei groesawu, a'r bwriad oedd recordio sesiwn tebyg ar gyfer ei ddosbarthu wedi hynny i athrawon Sir Ddinbych.

Yr oedd y meysydd a gwmpaswyd yn y cyflwyniad cynhwysfawr yn cynnwys –

- defnyddio delweddau, gyda llawer o ddarnau jig-so'n cynrychioli'r gwahanol ddarnau i'w rhoi at ei gilydd i gynrychioli'r cwricwlwm yn ei gyfanrwydd
- defnyddio'r pedwar diben fel man cychwyn – dysgwyr uchelgeisiol a galluog; cyfranwyr mentrus a chreadigol; dinasyddion egwyddorol, gwybodus; unigolion iach a hyderus – a sut maent yn gysylltiedig â CGM
- dolenni i Faes Dysgu a Phrofiad (MDPh) y Dyniaethau, y ceir mynediad iddo drwy Hwb a chanllawiau pellach, gan gynnwys Adran 5, Dylunio eich Cwricwlwm, ac ystyriaeth benodol ar gyfer y maes hwn, gan annog dull holistaidd o ddysgu
- statws cyfreithiol canllaw CGM y cytunwyd arno gan Sir Ddinbych i fod yn Faes Llafur Cytunedig. Yr oedd CGM yn elfen fandadol o'r pwnc ac yn rhan orfodol o'r Cwricwlwm i Gymru; a dolenni i feysydd cefnogaeth eraill ar Hwb
- prif agweddau yn cwmpasu cynnwys argyhoeddiadau crefyddol ac athronyddol anghrefyddol; peidio â chaniatáu i blant gael eu tynnu o CGM; rhoi ystyriaeth a newidiadau yn yr iaith, a'r dysgu'n gorfod adlewyrchu'r ffaith bod traddodiadau crefyddol yng Nghymru yn Gristnogol yn bennaf, gan ystyried y prif grefyddau eraill a gynrychiolir yng Nghymru, a bod ystod o argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol yn cael eu harddel yng Nghymru
- yr oedd Canllawiau Ategol Sir Ddinbych ar gyfer CGM, sydd ar gael i ysgolion, yn cwmpasu Disgyblaethau CGM, Datblygiad Ysbrydol, CGM a'r pedwar diben, Cysyniadau CGM, lens CGM, a Dilyniant Dysgwyr a Siwrneiau Dysgu CGM
- wedi hwyluso gêm eiriau ('wordle') fel ffordd o ysgogi'r meddwl a thrafodaeth

- nodau ac amcanion cyffredinol AG yn ôl Polisïau AG
- cyffredinedd rhwng MDPh y Dyniaethau ac enghreifftiau'n ymwneud ag ystyr Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig
- Disgyblaethau CGM, gan gynnwys astudiaethau crefyddol, athroniaeth, diwinyddiaeth, cymdeithaseg, seicoleg ac anthropoleg, a chwestiynau mawrion gydag enghreifftiau a fyddai'n ddefnyddiol i'w hymgorffori i'r canllawiau
- Cysyniadau CGM a sut oeddynt yn ymddangos yn y Maes Llafur Cytunedig ynghyd â nifer o themâu allweddol i'w hystyried fel rhan o'r cwricwlwm hwnnw
- Lensys CGM a sut oeddynt yn ymddangos yn y Maes Llafur Cytunedig ynghyd â chrynodeb o'r saith lens a datganiadau cysylltiedig 'Mae'n ymwneud â hyn'
- enghreifftiau o Siwrneiau Dysgu CGM, gan gynnwys disgwyliad a chynnydd
- cysyniadau'r Maes Llafur Cytunedig wedi eu croesgyfeirio â'r cysyniadau a nodir yn Natganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig a Disgrifiadau Dysgu MDPh y Dyniaethau
- cysyniadau a nodir yn y Maes Llafur Cytunedig ond nas cyfeirir atynt yn y Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig na'r Disgrifiadau Dysgu
- fframweithiau ac enghreifftiau o ddatblygiad ysbrydol
- manylion pellach am weithgareddau ac adnoddau y gellid eu defnyddio.

Diolchodd yr aelodau i'r Ymgynghorydd AG am ei gyflwyniad diddorol, llawn gwybodaeth.

Cafwyd ychydig o drafodaeth am y newidiadau sylweddol i ddysgu'r maes pwnc er mwyn darparu cwricwlwm sy'n gyfredol, sy'n addas ar gyfer cymdeithas fodern, ac i adlewyrchu'r gwahanol ddiwylliannau a chredoau mewn cymdeithas ddemocrataidd. Soniwyd am gymariaethau rhwng y gorffennol a'r presennol, a gwerthoedd a chredoau gwahanol ddiwylliannau a chenedlaethau, sy'n newid dros amser. Cafwyd ychydig o drafodaeth am faterion proffil uchel ehangach yn y cyfryngau yn ymwneud â phriodasau o'r un rhyw a hunaniaeth rhywedd, a hefyd sut y cefnogir plant mewn ysgolion. Cyfeiriodd yr Ymgynghorydd AG at Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (ACRh) fel elfen fandadol o'r cwricwlwm newydd mewn ysgolion, a rhoddodd y Cynghorydd Gill German ychydig o gefndir i'r her gyfreithiol ddiweddar a'r apêl ddilynol yn erbyn addysgu mandadol ACRh, a oedd wedi ei wrthod gan yr Uchel Lys. Rhoddodd drosolwg o ACRh ac addysgu am berthnasoedd o fewn teuluoedd, cariad a pharch, mewn ffordd sy'n briodol o ran oedran, ac amlygodd y gamwybodaeth a oedd wedi ei rhannu yn y cyfryngau. Dywedodd yr Ymgynghorydd AG fod angen i addysgu ganolbwyntio ar amrywiaeth a bod yn gynrychioliadol o'r gwahaniaethau mewn cymdeithas i normaleiddio derbyn y gwahaniaethau hynny. Yr oedd cymal o fewn ACRh a oedd yn ymwneud â phobl a oedd â chredoau penodol iawn ynglŷn â rhywioldeb a materion rhywedd, oherwydd y mae yna bobl sydd wirioneddol yn credu ac yn coleddu safbwynt arbennig. Yr oedd y mater yn ymwneud â goddefgarwch a derbyn gwahanol safbwyntiau a chredoau mewn cymdeithas ddemocrataidd.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu cyfraniad i'r drafodaeth, ac i'r Ymgynghorydd AG am ei gyflwyniad cynhwysfawr a groesawyd gan yr aelodau.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn a nodi'r cyflwyniad gan yr Ymgynghorydd AG mewn perthynas â chanllawiau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg.*

## 6 CCYSAGC

Cyflwynwyd cofnodion drafft cyfarfod Cymdeithas Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog Addysg Grefyddol Cymru (CCYSAGC) a gynhaliwyd drwy Microsoft Teams ar 16 Tachwedd 2022 (dosbarthwyd ymlaen llaw)

Tynnwyd sylw'r aelodau at y canlynol –

- **Modiwlau Dysgu Proffesiynol** – parheid i ddisgwyl am y 5 modiwl cyntaf o adnoddau Llywodraeth Cymru, ond yr oeddynt wedi bod trwy'r broses sicrhau ansawdd. Er bod siom am yr oedi, yr oedd ansawdd yr adnoddau'n uchel iawn a byddent yn hynod werthfawr i ysgolion. Disgwylid y byddai'r adnoddau'n cael eu cyhoeddi'n fuan, a gellid eu hystyried gan CYSAG mewn cyfarfod yn y dyfodol. Gan ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Emrys Wynne, cadarnhaodd yr Ymgynghorydd AG, er y crybwyllwyd y posibilrwydd o gyhoeddi'r fersiynau Saesneg cyn y rhai Cymraeg, eglurwyd y byddai gwneud hynny yn mynd yn groes i bolisi Llywodraeth Cymru a CCYSAGC, ac felly byddai fersiynau'r ddwy iaith yn cael eu cyhoeddi ar yr un pryd.
- **Y Wybodaeth Ddiweddaraf ynglŷn ag Estyn** – rhannwyd adroddiad am feysydd yn y fframwaith arolygu cyfredol a oedd yn cyfeirio at agweddau o CGM. Yr oedd Estyn wedi ailddechrau ymweliadau ag ysgolion, a deuid ag adroddiadau arolygu am yr ysgolion hynny a gwmpaswyd yn y ddau dymor blaenorol i gyfarfod nesaf CYSAG ym mis Mehefin 2023, a byddai'r Ymgynghorydd AG hefyd yn rhoi cyflwyniad ar fframwaith arolygu CGM Estyn.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn cofnodion cyfarfod CCYSAGC a gynhaliwyd ar 16 Tachwedd 2022.*

## 7 DYDDIAD Y CYFARFODYDD NESAF

Cadarnhawyd dyddiadau cyfarfodydd CYSAG 2023 fel a ganlyn:

15 Mehefin (dydd Iau) ac 17 Hydref (dydd Mawrth)

Daeth y cyfarfod i ben am 11.45am.